

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2023

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: CANLLAWIAU NICE, 'Self-harm: assessment, management and preventing recurrence'

Dyddiad dod i ben / Adolygu
Ebrill 2028

I'w weithredu gan:
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Meddygfeydd

Camau i'w cymryd erbyn: *Amh*

Ar unwaith

Anfonir gan:
Dr Liz Davies, Uwch-swyddog Meddygol

Enw Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:
Lisa Pollard, yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed.
E-bost: mentalhealthandvulnerablegroups@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim un

Annwyl gydweithiwr

Diben y cylchlythyr hwn yw sicrhau bod yr holl feddygfeydd yng Nghymru a phob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r canlynol ac yn eu hystyried:

- Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), [Overview | Self-harm: assessment, management and preventing recurrence | Guidance | NICE](#)

Mae'r canllawiau'n cwmpasu gwaith asesu, rheoli ac atal achosion rhag digwydd eto gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi hunan-niweidio. Mae'n cynnwys yr unigolion hynny sydd â phroblem iechyd meddwl, anhwylder niwroddatblygiadol, neu anabledd dysgu, ac mae'n berthnasol i bob sector sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi hunan-niweidio.

Mae'r canllawiau'n cynnwys argymhellion ar y canlynol:

- Gwybodaeth a chymorth
- Caniatâd a chyfrinachedd
- Diogelu
- Cynnwys aelodau'r teulu a gofalwyr
- Asesiadau seicogymdeithasol a gofal gan weithwyr iechyd meddwl
- Adnoddau a graddfeydd asesiadau risg
- Asesiadau a gofal gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol
- Asesiadau a gofal gan weithwyr proffesiynol a gan weithwyr o sectorau eraill
- Achosion o dderbyn pobl i ysbytai a'u rhyddhau ohonynt
- Ôl-ofal cychwynnol ar ôl achos o hunan-niweidio
- Ymyriadau ar gyfer hunan-niweidio
- Cefnogi pobl i fod yn ddiogel ar ôl hunan-niweidio
- Rhagnodi a rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn mewn ffordd fwy diogel
- Hyfforddi a goruchwyllo

Yn gywir

Dr Liz Davies

Dr Liz Davies
Uwch-swyddog Meddygol